ATAL AMDDIFFYN YMATEB

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CRYNODEB O BERFFORMIAD

2016-2017

Dyma grynodeb o adroddiad asesiad blynyddol yr Awdurdod – Sut wnaethom ni yn 2016/17?



GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

EIN NOD

Helpu i wneud Gogledd Cymru yn lle mwy diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag o

Cysylltwch â ni am gyngor a, gwybodaeth gyffredinol:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân,
Ffordd Salesbury,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JJ
Tel:01745 535250

www.gwastan-gogcymru.org.uk

Gallwch hefyd ein dilyn ni ar:
Twitter @northwalesfire
www.facebook.com/northwalesfireservice

Am archwiliad diogelwch cartref, ffoniwch 0800 169 1234

Mewn argyfwng ffoniwch 999 bob amser
This publication is available in English

Dyddiad Cyhoeddi: Tachwedd 2017

AMDANOM NI:

GORSAFOEDD A STAFFIO:

Mae 44 gorsaf dân wedi eu lleoli o gwmpas Gogledd Cymru. Defnyddir deg o'r rhain ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru neu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans. Mae ein Hystafell Reoli hefyd yn gyfleustra cydweithredol gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Ar 31ain Mawrth 2017, roedd dosraniad y staff fel a ganlyn:

- 411 Diffoddwr Tân Gweithredol Rhan Amser
- 256 Diffoddwr Tân Amser Llawn
- 154 Staff Ategol a Rhwystro
- 34 Staff Rheoli

5 GORSAF DÂN CRIW DYDD

Sydd yn weithredol rhwng hanner dydd a 10:00p.m., ac sydd yn gweithredu fel gorsafoedd rhan amser y tu allan i'r oriau hyn.

36 GORSAF RHAN AMSER

Sydd dim ond yn weithredol pan fydd angen, wedi i bersonél gael eu rhybuddio ynghylch digwyddiad.

3 GORSAF SIFFT 24 AWR

Sydd yn weithredol bob awr o'r dydd ac sydd yn cael eu cefnogi gan griw o ddiffoddwyr tân rhan amser.

CYFRYNGAU CYMDEITHASOL:

14,948 Hoffi

1,070 Dilynwr

14,181 Dilynwr

YR IAITH GYMRAEG:

Ers 30ain Mawrth 2017, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio gyda set o Safonau Iaith Gymraeg newydd a reoleiddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

DYLETSWYDDAU CYDRADDOLDEB:

Cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2016 ac mae'n nodi ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau tegwch i drigolion, aelodau etholedig, aelodau staff a holl ymwelwyr ag ardal Gogledd Cymru.

Dwy fenter newydd wedi eu treialu yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cymorth Cymunedol yn ymateb i alwadau a wneir i'r gwasanaeth Ambiwlans pan fydd person wedi syrthio ond heb ei anafu. Mae'r Tîm ar Goll o'r Cartref yn cynorthwyo'r Heddlu i chwilio am bobl fregus sydd ar goll.

Mae asesiadau o'n cynnydd o gymharu â Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb ar gael yn: **www.gwastan-gogcymru.org.uk**

EIN HARDAL:

SIR	*YNYS MÔN*	GWYNEDD	CONWY	SIR DDINBYCH	SIR Y FFLINT	WRECSAM
Poblogaeth	69, 979	122,864	116,218	94,691	154,074	136,647
Annedd	35,033	60,761	56,685	44,418	67,574	59,828
Annomestig	2,859	7,444	5,180	4,138	5,290	4,264
KM^2 Ardal	711	2,535	1,126	837	437	504

Mae ardal y Gwasanaeth yn rhyw 6,150km^2, yn amrywio o ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, i ardaloedd dwysach trefol, gan gynnwys 9,318km o ffyrdd, rheilffyrdd ac arfordir yn mesur 400km.

Yn ystod y flwyddyn, aethom at 5,348 o ddigwyddiadau:

- Tanau: 2,015
- Digwyddiadau argyfwng eraill heb fod yn danau: 1,209

(gan gynnwys Cyd-ymateb, Tîm Cymorth Cymunedol a galwadau Ar Goll o'r Cartref)

- Camrybuddion: 2,124

Roedd 16 o gamrybuddion wedi eu nodi fel argyfyngau eraill heb fod yn danau.

Mapiau yn dangos Digwyddiadau Argyfwng a Fynychwyd yng Ngogledd Cymru





EIN PERFFORMIAD YN ERBYN EIN HAMCANION:

Amcan Gwella 1:

Helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel trwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi.

Ein perfformiad eleni (2016/17) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2015/16)

Cynyddodd nifer y tanau damweiniol mewn tai annedd i 433, 48 yn fwy o gymharu â'r llynedd. Arhosodd nifer y tanau a gadwyd yn yr ystafell lle cychwynasant, fodd bynnag, yn uchel, sef 91% ar gyfer 2016/17.
O'r bobl yn y tanau hyn, llwyddodd 86% ddianc yn ddi-anaf a heb angen am gymorth, a syrthiodd y nifer o bobl a anafwyd o 47 o bobl i 33. Rydym yn parhau i fonitro, fodd bynnag, pam y mae anafiadau cysylltiedig â thân yn parhau yn uchel yn ein hardal ni o gymharu â gweddill y DU. Cynyddodd nifer y bobl a fu farw oherwydd tân damweiniol yn y cartref o 3 i 4.
Rydym wedi parhau gyda'n hymrwymiad i ddiogelwch tân yn y gymuned ac wedi gwneud 20,235 archwiliad diogelwch tân am ddim yn ystod y flwyddyn. Trwy weithio'n agos gyda chyfundrefnau eraill roeddem yn medru cyfeirio ein hadnoddau i'r sawl sydd fwyaf mewn angen, gydag 89% o'r archwiliadau yn cael eu gwneud yn benodol i bobl sydd ag un ffactor risg neu fwy, ysmygu neu ddefnyddiwr alcohol / cyffuriau; anallu synhwyraidd / corfforol / meddyliol neu ddysgu; oedolyn sengl gan gynnwys rhieni sengl.
Mae gweithio gydag asiantaethau partner yn hanfodol i'n gwaith rhwystro ac mae 27% o'r atgyfeiriadau yn dod yn uniongyrchol gan y grwpiau hyn, er bod hyn wedi syrthio islaw'r targed o 30% yr oeddem wedi gobeithio ei gyflawni.

Amcan Gwella 2:

Gan gydnabod y gostyngiad a ragwelir mewn cyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn dod yn egwyddor ganolog.

Datblygwyd a chytunwyd cynllun tair blynedd gan yr Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, cydnabuwyd na fyddai'r rhaglen o arbedion y byddai eu hangen i gyflawni hyn yn gynaliadwy; cydnabuwyd hefyd y byddai angen amser i weithredu unrhyw ostyngiadau.
Cytunwyd felly yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mai 2016, y byddai'r cynllun 3 blynedd newydd yn cael ei weithredu ar gyfer blynyddoedd ariannol 2017/18, 2018/19 a 2019/20, a fyddai'n cytuno defnyddio cronfeydd wrth gefn a gostyngiadau mewn gwasanaeth fel o'r blaen, ond gyda chynnydd mewn cyfraniadau ariannol gan y cynghorau sir.

Amcan Gwella 3:

Bydd yr Awdurdod yn ail-gydbwyso ei adnoddau i gyfateb â risg. Bydd yr Awdurdod yn cyflwyno dull newydd o gynllunio i sicrhau bod o leiaf 20 criw tân wedi eu lleoli'n strategol ac ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar gael ar adegau pan fo'r risg yn gymharol uwch.

Mae gwaith monitro ac amcanestyn dyddiol manwl wedi ei wella i gynllunio gwasanaeth tân ar draws yr ardal. Mae staff yr ystafell reoli yn monitro'n ofalus argaeledd criwiau ac yn ail-ddyrannu adnoddau mewn ymateb i newidiadau byr-rybudd. Mae cyflwyno system reoli a meistroli newydd, wedi ei hintegreiddio gyda'r system gyfathrebu bresennol, yn parhau i sicrhau anfon criwiau yn gyflym ac yn gywir. Bydd system dyletswyddau wrth gefn newydd yn cynorthwyo o ran adnabod tueddiadau.

Amcan Gwella 4:

Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfleoedd i arallgyfeirio'r hyn y mae diffoddwyr tân yn ei wneud a chynnig gwasanaethau ychwanegol i gyhoedd Gogledd Cymru.

Cafwyd dwy fenter newydd yn ystod y flwyddyn

Ym mis Awst, dechreuodd Timau Gweithredu Cymunedol pwrpasol (CAT) gynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwlans trwy ymateb i alwadau 999 i helpu pobl yn eu cartrefi oedd wedi syrthio ond heb eu hanafu. Yna ym mis Medi, dechreuodd y timau Ar Goll o'r Cartref helpu'r Heddlu i chwilio am bersonau lleol a oedd yn agored i niwed. Yn y tri mis cyntaf, roedd y criwiau tân wedi cymryd rhan mewn 17 chwiliad ac roedd pob un o'r bobl ar goll wedi eu canfod yn ddiogel ac yn iach.
Estynnwyd y prosiect Cyd-ymateb a bydd pob prosiect yn cael ei fonitro'n ofalus.

MESURAU PERFFORMIAD:

DANGOSYDDION PERFFORMIAD STATUDOL :

Cymharu ein perfformiad yn 2016/17 gyda'n perfformiad yn 2015/16. (Defnyddiwyd data demograffig ar gyfer 2015/16 wrth gyfrifo'r dangosyddion perfformiad gan mai dyma oedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru ar adeg ei gyflwyno).

Tanau a Fynychwyd (fesul 10,000 o'r boblogaeth)

6.2%

Camrybuddion a fynychwyd (fesul 10,000 o'r boblogaeth)

6.9%

90.6% o danau tai annedd wedi eu cyfyngu i'r ystafell lle tarddodd y tân.

0.9 pwynt canran

Marwolaethau ac Anafiadau (fesul 100,000 o'r boblogaeth)

- tanau damweiniol

30.3%

- pob tân

32.6%

Argyfyngau Eraill a Fynychwyd nad oeddent yn Danau (fesul 10,000 o'r boblogaeth)

83.1%

Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffordd a Fynychwyd (fesul 10,000 o'r boblogaeth)

1.3%

Esbonio'r Saethau: Cynnydd | Gostyngiad | Dim Newid

DANGOSYDDION PERFFORMIAD SECTOR:

Cytunwyd y Dangosyddion hyn gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

Dangosyddion Perfformiad Sector Cyfanswm y:	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Gogledd Cymru	De Cymru	Cymru Gyfan
Tanau a fynychwyd a gafodd eu cynnau'n fwriadol fesul 10,000 o'r boblogaeth	14.09	8.55	26.93	19.09
Tanau a fynychwyd a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol fesul 10,000 o'r boblogaeth	18.27	20.46	11.59	15.51
Tanau a fynychwyd mewn tai annedd fesul 10,000 o dai annedd	14.81	14.40	11.42	13.12
Tanau a fynychwyd mewn tai annedd a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol fesul 10,000 o dai annedd	14.01	13.35	10.35	12.13
Tanau a fynychwyd mewn tai annedd a gafodd eu cynnau'n fwriadol fesul 10,000 o dai annedd	0.80	1.05	1.06	0.98
Tanau a fynychwyd mewn safleoedd annomestig fesul 1,000 o safleoedd annomestig	5.43	4.94	5.04	5.14
Marwolaethau tân a achoswyd gan danau a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	0.78	0.72	0.47	0.61
Anafiadau tân a achoswyd gan danau a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	5.34	6.48	5.65	5.74
Marwolaethau tân a achoswyd gan danau damweiniol mewn tai annedd a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	0.67	0.58	0.20	0.42
Marwolaethau tân a achoswyd gan danau bwriadol mewn tai annedd a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	0.00	0.00	0.07	0.03
Anafiadau tân a achoswyd gan danau damweiniol mewn tai annedd a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	4.56	4.75	4.19	4.42
Anafiadau tân a achoswyd gan danau bwriadol mewn tai annedd a fynychwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth	0.00	0.29	0.80	0.45
Camrybyddion gan larymau tân awtomatig mewn eiddo annomestig a fynychwyd fesul 1,000 safleoedd annomestig	46.91	11.83	88.84	55.08
Camrybyddion gan larymau tân awtomatig a fynychwyd mewn tai annedd fesul 10,000 o dai annedd	42.87	24.85	20.03	27.98
Canran y tanau tai annedd a fynychwyd lle nad oedd larwm mwg yn bresennol	38.69%	15.20%	39.24%	33.01%

Y SIARTER TAI ANNEDD:

Tan Tai Annedd

33 o bobl wedi eu hanafu mewn tanau tai annedd damweiniol a 4 wedi eu lladd

13,654 o alwadau argyfwng wedi eu derbyn

162 o alwadau ffug maleisus

114 o alwadau maleisus HEB eu mynychu

24,057 o blant a phobl ifanc wedi cael sgwrs diogelwch tân gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn yr ysgol.

20,235 o Archwiliadau Diogelwch Cartref wedi eu cwblhau

Mae croeso i chi anfon sylwadau neu awgrymiadau ar sut y gallwn wella'r daflen hon at y dyfodol.

Mae ein hadolygiad llawn ar gael yn www.gwastan-gogcymru.org.uk neu gallwn ddarparu copi i chi os gwnewch gais.